



Cyfarfod Blynyddol
Cymdeithas Grefyddol y
Cyfeillion ym Mhrydain

Eglwysi Lleol Gyda'i Gilydd

Annwyl Gyfeillion,

Dyma'r trydydd argraffiad o'r daflen hon ynghylch eciwmeniaeth leol, ac mae wedi'i ddiwygio i roi cyfrif o'r profiad mae'r Cyfeillion yn dal i'w ddatblygu mewn gwaith eciwmenaidd. Gobeithiwn y bydd Cyfeillion, y rhai sy'n newydd i waith gydag Eglwysi Ynghyd Lleol a'r rhai sydd wedi hen arfer, yn cael ynddi awgrymiadau defnyddiol o rannu profiad Cyfarfodydd ledled y wlad.

Croesawai QCCIR unrhyw newyddion ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn lleol. Os gwelwch yn dda, rhowch wybod inni am lwyddiannau, am drafferthion, neu am ddulliau defnyddiol o 'gerdded yn siriol' wrth gyfarfod ag anawsterau. Byddai'n ddefnyddiol hefyd dderbyn gwybodaeth a sylwadau er mwyn inni barhau i ddiweddarau'r daflen hon o dro i dro. Gellir cysylltu â QCCIR trwy'r Ysgrifennydd yn Friends House, 173 Euston Road, Llundain NW1 2BJ

Yn ein holl ymwneud â gwaith eciwmenaidd, ceisia'r Cyfeillion gyfuno ymdeimlad cryf o'r angen i fod yn ffyddlon i'n tystiolaethau gydag awydd i fod yn 'ymateb i'r hyn sydd o Dduw' yn aelodau eglwysi eraill. Ar bob lefel, mae rhaid i Gyfeillion, yr un fath ag eglwysi eraill, benderfynu a ddylent sefydlu cysylltiadau eciwmenaidd â'u cymdogion, a pha mor agos a ffurfiol y dylai'r cysylltiadau hynny fod. Lluniwyd y daflen hon i helpu Cyfeillion yn y broses o ddirnad hyn.

Ein hymwneud eciwmenaidd

Mae ymwneud y Crynwyr ag eciwmeniaeth leol yn amrywiol a bywiol. Mae Cyfeillion hefyd yn ymuno ag eglwysi eraill yn yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol, a chyd-uno mewn addoliad, mewn cyrsiau astudio, grwpiau tŷ, digwyddiadau lleol, prosiectau cymdeithasol, a chasgliadau at elusennau. Yn aml, bydd Crynwyr yn cyfrannu'n frwd i gaplaniaethau tîm mewn prifysgolion, ysbytai a charchardai. Byddant yn cyd-weithio hefyd ar ymgyrchoedd megis *Trade Justice* (mudiad dros gyfiawnder mewn masnach), ac yn helpu hyrwyddo achosion megis yr amgylchedd, gwrth-hiliaeth a thai.

Eglwysi Ynghyd Lleol

Nid yw aelodaeth Cyfarfod Blynyddol Prydain o Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn awtomatig yn gwneud Cyfeillion yn aelodau o Eglwysi Ynghyd Lleol. Peth yw hyn i bob grŵp o Gyfeillion ei benderfynu drosto ei hun. Gallant ddewis cyd-

weithio'n anffurfiol ag eglwysi lleol, perthynas a all eto fod yn agos ac yn gynhyrchiol. Gall rhai cyfarfodydd ddod i ymwneud â Phartneriaeth Eciwmenaid Leol (gweler isod). Er hynny, lle mae Cyfeillion yn ymwneud ag eglwysi lleol yn ffurfiol, y model mwyaf cyffredin yw'r Eglwysi Ynghyd Lleol.

Gall gwahaniaethau rhwng Cyfeillion ac eglwysi eraill ddod yn feini tramgwydd yn ystod y broses o gytuno cyfamod neu gyfansoddiad Eglwysi Ynghyd Lleol. Un o'r problemau mwyaf cyffredin yw'r un sy'n codi pan fydd cyfamod arfaethedig yn cynnwys rhyw fath o ddatganiad credo sy'n sail i aelodaeth. Fel cymorth i Gyfarfodydd sy'n ymrafael â'r math hwn o sefyllfa, 'rydym wedi paratoi atodiad ynghylch cyfamodau a chyfansoddiadau.

Lleisiau Crynwyr

Wrth ymuno ag eglwysi eraill, nid ydym yn cyfaddawdu ein gwerthoedd fel Crynwyr. Mae llawer o Gyfeillion sy'n weithgar yn eciwmenaid wedi darganfod bod gwerthfawrogiad mawr o'u cyfraniad a'u sylwadau fel Crynwyr. I eraill, bu mwy o broblemau. Gall gwahaniaethau dulliau neu wahaniaethau dealltwriaeth mewn materion o ffydd daflu cysgod mawr, neu gall fod gwrthwynebiad o du ein Cyfarfod ein hunain i ymwneud ag eglwysi eraill. Er hynny, yn aml, wrth wynebu'r heriau hyn, cafodd Cyfarfodydd hwy'n ysgogiad i dwf. Dyma'r hyn a ddywed CP (Cyfarfod Paratoawl) Marple, Cyfarfod na theimlai y gallai lofnodi cyfamod a'u Heglwysi Ynghyd Lleol, ond sydd, er hynny, wedi cynnal ei gysylltiadau â'r eglwysi eraill:

"Yr ydym wedi cynnal ein perthynas dda â'r eglwysi eraill. Er bod nifer isel ein haelodau yn rhwystr inni gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau, gwerthfawrogiad yn fawr ein cyfraniad neilltuol."

Mae'r profiad o ymwneud ag eglwysi eraill yn un a all ein herio ni i ddatgan ein safbwynt ein hunain yn gliriach. Ysgrifennodd un Gyfeilles fod ei phrofiad fel cynrychiolydd mewn Eglwysi Ynghyd Lleol wedi rhoi golwg gwahanol iddi ar sut mae pobl yn ymwneud â Duw, mewn modd a fu'n gymorth iddi ddiffinio'n gliriach ei mewnwelediadau a'i ffydd ei hun.

Camau ar y ffordd

Ar gyfer Cyfarfod sy'n ystyried a ddylid ymuno ag Eglwysi Ynghyd Lleol, neu sy'n ymdrin ag anawsterau mewn perthynas sy'n bod eisoes, gall y camau canlynol fod yn gymorth:

- Gall edrych eto ar beth sydd gan *Quaker Faith and Practice* a *Cynghorion ac Ymholiadau* i'w ddweud fod yn gymorth wrth drafod cwestiynau y tu mewn i'r Cyfarfod, a hefyd wrth eirio ymatebion i'r Eglwysi Ynghyd Lleol. Gall y Cyfarfod hefyd ystyried eu cynnig i eglwysi eraill, i'w helpu i ddeall ein safbwynt yn well.

Grŵp astudio, efallai'n cyfeirio at *Creeds and the Search for Unity* neu *To Lima with Love*. Os oes Cyfeillion sydd, am wahanol resymau, yn amheus ynghylch ymuno â chyrff rhyng-eglwysig, gall hyn helpu i amlygu'r teimladau cryfion y gall Cyfeillion eu profi ynghylch materion eciwmenaid.

- Gall fod yn werth chweil ystyried cynnal 'cyfarfod dyrnu' neu 'gyfarfod ar gyfer eglurder' (QFP 12:22-26), fel y gwnaeth CP St Albans

Er mwyn penderfynu sut y dylai ein dulliau busnes fod yn gweithio, sut y dylem fod yn disgwyl arweiniad Duw yn y mater hwn, a sut y gallwn wrando ar ein gilydd yn well.

Mewn ambell grŵp Eglwysi Ynghyd Lleol, gall Cyfeillion ddod ar draws elfennau diwinyddol a gânt yn her arbennig. Er mwyn bod yn hyderus wrth ymateb safbwyntiau o'r fath, gall grwpiau astudio fod yn gymorth wrth weithio trwy ein dealltwriaeth ein hunain o Iesu neu o'r Crist.

Lle bo geirfa neu ddefnydd o eiriau'n faen tramgwydd, gall fod yn gymorth trafod atebion posibl i iaith ddiwinyddol anghyfarwydd a thrafod dulliau o fynegi ein ffydd ein hunain. Os nad yw sefyllfa'n cynnig cyfle am drafodaeth ddofn, gall fod yn gymorth i fod yn barod gydag ymatebion byrrach. Pan gawn ein hwynebu gan gwestiynau megis 'A gawsoch eich golchi yng ngwaed yr oen?' gallem ddweud, 'Nid dyna'r modd y byddwn i'n ei ddisgrifio ...' neu efallai, 'Rwy'n meddwl y byddwn ni yn ei fynegi'n wahanol ...' O ran cwestiynau ynghylch iachawdwriaeth neu brynedigaeth, gallem ymateb mai 'Yn nwylo Duw y mae hynny'. Fe allai pob unigolyn ddod ar draws ymateb gwahanol y bydd yn teimlo'n fodlon arno.

- Ar ôl proses faith o sefydlu perthynas â'u Heglwysi Ynghyd Lleol, cynigiodd CP Exmouth y sylwadau canlynol ynghylch ymwneud â'r eglwysi eraill; efallai'r hoffai Cyfeillion eu hystyried (o bosibl trwy ffurfio 'Ymholiadau' priodol.)

o 'Peidiwch ag ymddwyn yn rhy amddiffynnol ynghylch safbwynt y Cyfeillion. Yn dawel ond yn gadarnhaol (nid yn ymosodol) helpwch eraill i weld bod gennym, ni waeth pa mor hynod y gallem ymddangos, gyfraniad arbennig i'w wneud sydd o werth i bawb;

o Yn dilyn o'r uchod, gwnewch hi'n glir eich bod chithau'n cydnabod a gwerthfawrogi traddodiadau eraill. Ymunwch yn eu bywyd a'u haddoliad gymaint ag y gallwch.'

Gall fod yn gymorth cysylltu â Chyfeillion sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch eciwmenaidd gyda Chyfarfodydd Paratoawl neu Gyfarfodydd Misol/Cyfarfodydd Rhanbarth eraill. Efallai gall QCCIR eich rhoi mewn cysylltiad â chyfarfodydd sydd â phrofiadau tebyg. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd yn *Friends House*

Pryderon a materion eraill

Gall cyd-addoli greu trafferthion sy'n wahanol i'r rhai sy'n codi wrth gyd-weithio ar gyfer nod cyffredin. Cynigia QCCIR daflenni ar wahân ynghylch yr Ewcharist, ac ynghylch trefnu Cyfarfod Addoli lle daw aelodau o eglwysi eraill. Gall rhai Cyfeillion deimlo'n fwy cyfforddus nag eraill wrth gymryd rhan mewn gwahanol ffurfiau ar addoliad, ac mae'n fater i bob unigolyn benderfynu pryd y dymuna gymryd rhan, a phryd y dymuna sefyll o'r neilltu. Er hynny, gall achlysuron cyd-addoli fod yn

gyfleoedd i ddysgu gan ein gilydd, ac i ddod i werthfawrogi traddodiadau eraill. Fe weithia hyn y ddwy ffordd, ac mae sawl Cyfaill wedi sôn am sut y daeth gwerthfawrogi gwerth tawelwch yn lle geiriau yn fwy cyffredin mewn eglwysi eraill, trwy ymwneud Crynwyr ag eciwmeniaeth.

Teimla rhai Cyfeillion na ddylem fod yn ymwneud ag eglwysi Cristnogol yn unig, ond yn ymestyn allan at bobl o grefyddau eraill. Efallai fod y weledigaeth hon o eciwmeniaeth ehangach yn rhywbeth sydd gennym ni Gyfeillion i'w chynnig i eglwysi eraill. Fe gymerodd y rhan fwyaf o'r ganrif ddiwethaf i ddatblygu perthnasau rhyng-eglwysig i'r lle y maen nhw erbyn hyn; ai eciwmeniaeth ryng-grefyddol yw'r dasg nesaf ar gyfer yr eglwysi?

Fframweithiau Eciwmenaidd

Ers sefydlu cyrff eciwmenaidd cenedlaethol yn 1990, bu Cyfeillion yn cymryd rhan fel aelodau llawn. Y cyrff presennol yw:

- Action of Churches Together in Scotland (ACTS)
- Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (CYTŪN)
- Eglwysi Ynghyd yn Lloegr (CTE)
- Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)¹.

Yn Lloegr, ceir cyrff rhanbarthol hefyd, megis West Yorkshire Ecumenical Council a South Cleveland & North Yorkshire Ecumenical Council. Nid oes gan yr Alban a Chymru ddigon o arian ar gyfer y lefel hon o gefnogaeth ganolradd.

Er nad yw 'ffiniau' eciwmenaidd ddim bob amser yn cyd-redeg â fframwaith y Crynwyr, sef Cyfarfodydd Paratoawl, Cyfarfodydd Misol/Cyfarfodydd Rhanbarth a Chyfarfodydd Blynyddol, anogir Cyfeillion er hynny i ymchwilio i ymgysylltu. Mae dod yn aelodau'n gynnar ym mywyd Eglwysi Ynghyd Lleol yn rhoi cyfle i bobl eraill glywed tystiolaethau Cyfeillion

Cyfamodau a Phartneriaethau Eciwmenaidd Lleol

Ar ôl cyd-weithio'n agos am beth amser, gall fod dwy eglwys neu ragor yn dymuno cryfhau eu cysylltiadau trwy addo gweithio mewn cytgorf a gwneud cymaint ag y bo modd gyda'i gilydd. Gelwir y fath addewid yn Gyfamod, pan y'i gwneir ar ffurf datganiad ysgrifenedig difrifol, a gofrestrir gyda Chorff Noddi (gweler y blwch) neu gorff canolig. Gall ambell Eglwys Ynghyd Lleol benderfynu symud i berthynas gyfamodol. I rai, gall y bartneriaeth hon ddatblygu'n Bartneriaeth Eciwmenaidd Leol.

Ar gyfer Partneriaeth Eciwmenaidd Leol mae rhaid wrth gytundeb ysgrifenedig ffurfiol sy'n effeithio ar weinidogaeth, bywyd cynulleidfaol, adeiladau neu brosiectau cenhadol dau enwad neu ragor: a chael cydnabod y cytundeb gan y Corff Noddi a chan awdurdodau'r enwadau priodol. Gall Partneriaeth Eciwmenaidd Leol fod yn bartneriaeth rhwng eglwysi sy'n ymuno fel un gynulleidfa neu i rannu eiddo, neu rhwng eglwysi sy'n cyd-weithio mewn meysydd megis caplaniaeth ar gyfer, er

¹ <http://www.ctbi.org.uk/>

enghraifft, ysgolion a cholegau, carchardai, ysbytai, ymfudwyr sy'n chwilio am waith, diwylliant, canol dinas neu dref.

Gellir lawrlwytho amrywiaeth o daflenni ynghylch Partneriaeth Eciwmenaid Leol o www.cte.org.uk

Cyrff Noddi

Yn Lloegr, cyrff eciwmenaid rhanbarthol neu sirol sydd fel arfer yn gweithredu fel Cyrff Noddi. Yn yr Alban mae ACTS (Eglwysi Ynghyd yn yr Alban) wedi sefydlu Corff Noddi Cenedlaethol ACTS i helpu creu a hybu Partneriaethau Eciwmenaid Lleol trwy gydgyfrannu profiad, ac er mwyn achub y blaen ar anawsterau cyfansoddiadol a'u datrys. Mae hefyd yn sefydlu Grwpiau Ymgynghorol Rhanbarthol i weithio gyda Phartneriaethau Eciwmenaid Lleol ar lefel yr henaduriaeth a'r esgobaeth.

Ar gyfer darllen ac astudio ymhellach

Gellir lawrlwytho taflenni yn rhad ac am ddim o www.cte.org.uk:

- *Sharers, Guests or Tenants?* Pa beth mae'n ei olygu i rannu adeiladau eglwysig mewn cymdeithas amlddiwylliannol?
- *Sharing our Spiritual Treasures*. Taflen ymarferol a phoblogaidd a anelir at helpu Cristnogion i rannu eu profiad, i werthfawrogi traddodiadau eraill, a dod o hyd i faeth i'w ffydd.
- *Growing in Partnership*. 'Bras gynllun' ar gyfer cynulleidfaoedd lleol sy'n ffurfio Partneriaethau Eciwmenaid Lleol newydd.

Ac o www.acts-scotland.org:

- *Progressing in Partnership*. Canllaw fesul cam ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n dymuno dilyn partneriaethau lleol gyda'u cymdogion eciwmenaid
- *Declarations of Ecumenical Welcome*. Dulliau o groesawu Cristnogion o draddodiad eglwysig arall ac o'u cynnwys ym mywyd eich cynulleidfa

This Growing Unity. Llawlyfr ynghylch datblygiad eciwmenaid yn siroedd, dinasoedd mawrion a threfi newydd Lloegr, gan Roger Nunn. 2il Arg. 1998. ISBN 1-874295-08-5. £4.95.

Together Locally. Llawlyfr i eglwysi lleol sy'n ceisio gweithio gyda'i gilydd, gan Jenny Carpenter. 1998. ISBN 1-874295-08-13. £5.95.

Travelling Together. Llawlyfr ynghylch Partneriaethau Eciwmenaid Lleol gan Elizabeth Welch a Flora Winfield. 1995. ISBN 1-874295-08-3. £5.95.

Enriching Communion. Nod y llyfr hwn yw gweld sut y gall ein dealltwriaeth a'n profiad o 'gymundeb' fod yn ehangach, yn ddyfnach ac yn gyfoethocach. 2006. £4.95.

Unity in the Spirit: Crynwyr a'r bererindod eciwmenaid, QHS (allan o brint, ond fe all fod yn Llyfrgell eich Tŷ Cwrdd)

To Lima with Love, QHS (allan o brint, ond fe all fod yn Llyfrgell eich Tŷ Cwrdd)

Creeds and the search for Unity: Safbwynt Crynwr, gan Rex Ambler, Quaker Books.

'Windows' – myfyrdodau ar flwyddyn o deithio fel Cymrodyr Crynwrol Joseph Rowntree, gan Sylvia ac Irwin Barnes.

Friends and Interfaith, taflen QCCIR.

Crynwyr ac Achlysuron Eciwmenaidd trefnu cyfarfod addoli, QCCIR

Crynwyr ac Achlysuron Eciwmenaidd yr Ewcharist, QCCIR

Canllaw fer i acronymau eciwmenaidd a rhai'r Crynwyr a theitlau a chyfieithiadau Cymraeg a ddefnyddir yn y daflen hon

ACTS - Action of Churches Together in Scotland

CP – Cyfarfod Paratoawl - Preparative Meeting

Cyfarfod Blynyddol Prydain - Britain Yearly Meeting

CYTŪN – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru - Churches Together in Wales

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon - Churches Together in Britain and Ireland

Eglwysi Ynghyd Lleol - Local Churches Together

Eglwysi Ynghyd yn Lloegr - Churches Together in England

Partneriaeth Eciwmenaidd Leol - Local Ecumenical Partnership

QCCIR – Pwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill
Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations

Taflen gan Bwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill (QCCIR).
Gall y QCCIR roi cyngor a chefnogaeth i Grynwyr a Chyfarfodydd sy'n dymuno ehangu a dyfnhau eu hymwneud ag eglwysi a chrefyddau eraill.

Cysylltwch â : QCCIR c/o Friends House, 173 Euston Road, London NW1 2BJ. E-bost:
marigoldb@quaker.org.uk Ffôn: 020 7663 1060